
# Ysgrifennu Creadigol:
# Dechrau arni a datblygu syniad

**Llion Pryderi Roberts**




Fe glywsoch ddweud mae'n siŵr mai proses, ac nid digwyddiad, yw datganoli, ac mae modd dweud yn debyg am ysgrifennu. Fel pob proses, mae angen dechrau, datblygu a diweddu o fath, ond sut y mae dechrau ysgrifennu a datblygu syniad? Sut y mae wynebu'r ddalen wen arswydus a rhoi cynnig ar ei llenwi? Bydd gan bawb ei ddull yma; rhai yn eistedd wrth ddesg, rhai yn orweddiog ar soffa, rhai mewn caffi; rhai yn cydio wrth bensel mewn gardd neu barc; rhai yn teipio ar gyfrifiadur neu dabled. Bydd eraill yn gosod geiriau at ei gilydd wrth redeg, neu gerdded neu fyfyrio uwch coffi neu gwrw. Ac yna, mae gennym ni'r gweithdy ysgrifennu creadigol. Gofod artiffisial yw hwn i raddau helaeth, ond mae'n ofod pwysig. I mi, sydd wedi bod yn arwain gweithdai o'r fath ers pymtheng mlynedd a mwy, bellach, mae'r gweithdy creadigol yn ddefnyddiol iawn wrth geisio sbarduno'r broses o ganfod geiriau a'u gosod ar bapur (neu sgrin).

**Defnyddio sbardun**
Un elfen sydd wastad yn cael ei chysylltu â chreadigrwydd ac ysgrifennu'n greadigol yw ysbrydoliaeth. Peidiwch â 'nghamddeall i; nid mater o ddisgwyl am ryw awen gudd, gyfrin oddi uchod yw hi (er mor ddeniadol y gall syniad felly fod). Fe fydd rhai yn credu mai oddi allan y daw'r ysgogiad gwaelodol i ysgrifennu ac eraill, fel y bardd Rilke, yn mynnu mai oddi mewn i bob un ohonom y mae. Rwy'n hoffi meddwl bod ysbrydoliaeth yn rhan annatod o'r broses ysgrifennu ac y gall ddod o sawl ffynhonnell. Wrth arwain gweithdy, felly, rwy'n aml yn defnyddio sbardunau creadigol i brocio'r meddwl a stwyrian y synhwyrau a'r dychymyg.

Gall hyn fod yn fater syml o holi cwestiwn a chael y myfyrwyr i ymateb iddo drwy ddefnyddio un o brif arfau unrhyw awdur, sylwgarwch: 'O'n hamgylch yn ddyddiol, mae deunydd stori dda: yn sgyrsiau pobl, mewn edrychiad, mewn osgo corff, mewn darluniau sydyn' (2019, t. 105), meddai Haf Llewelyn wrth feirniadu Gwobr Goffa Daniel Owen yn lled ddiweddar. Yn y nofel *Outline* (2014) gan Rachel Cusk, mae'r prif gymeriad (sy'n diwtor ysgrifennu creadigol ar ymweliad ag Athen) yn agor ei gweithdy drwy ofyn i'r mynychwyr nodi unrhyw beth y bu iddyn nhw sylwi arno wrth deithio i'r dosbarth. Sonia un o'r disgyblion, merch o'r enw Clio, iddi basio coleg cerdd ar y ffordd draw a chlywed drwy ffenest agored rywun yn canu'r piano. Mae gwrando ar y darn (un yr oedd yn hoff iawn ohono) yn peri i Clio deimlo ias o golled yno ar y pafin. Daw'n amlwg bod y darn hwn yn ei hatgoffa o'i dymuniad i fod yn gerddor proffesiynol, dyhead y bu'n rhaid iddi gefnu arno ychydig flynyddoedd ynghynt. Er bod cryn drafod ymysg y dosbarth am natur y profiad hwnnw, mae'n dangos sut y gallwn ysgogi geiriau, syniadau ac emosiynau wrth sylwi ar y byd diriaethol, cyfarwydd o'n cwmpas.

Mae cerddoriaeth hefyd yn gallu bod yn effeithiol iawn wrth geisio cymell ymateb creadigol gan fyfyrwyr mewn gweithdy, ac mae modd amrywio yn ogystal, a gofyn iddyn nhw ymateb i sefyllfa, darlun neu wrthrych penodol. Mae'r dull olaf yma yn un sydd wedi ei ddefnyddio gen i sawl gwaith gyda myfyrwyr, gan gynnwys yng ngweithdy cyntaf y tymor. Byddaf yn gosod cyfres o wrthrychau mewn bocs ac yna'n gofyn i'r myfyrwyr ddewis un ac ymateb iddo drwy eiriau. Mantais gwrthrych yw ei fod yn rhywbeth diriaethol sy'n gyfarwydd yn syth inni – pêl, cloc, stamp, marblen, cragen, cannwyll – ac mae modd ei ddisgrifio drwy gyfrwng ansoddeiriau yn gyntaf oll. Ond yn y gweithdy mae'r gwrthrych hefyd yn anghyfarwydd, wedi'i dynnu o'i gyd-destun neu ei gartref arferol, a'r syniad yw bod ymateb y myfyrwyr yn ceisio gweld heibio i'r disgrifiadol. Mae'n ddiddorol fod rhai awduron a beirniaid bellach yn sôn am 'fywydau' gwrthrychau, a bod ganddyn nhw eu straeon eu hunain i'w rhannu â ni. (Darllenwch, er enghraifft, y gyfrol hynod *The Hare with Amber Eyes* (2010) gan Edmund de Waal, neu sylwch ar sut y mae gwrthrychau'n gallu sbarduno rhai o fyfyrdodau Georgia Ruth yn ei chyfrol ddiweddar *Casglu Llwch* (2024).) Hyd yn oed os yw'r gwrthrychau yn newydd neu'n ddieithr i ni, y cwestiwn y byddaf yn ei holi i'r myfyrwyr fydd 'i ble mae'r gwrthrych yn mynd â chi?'. Yn aml, mae'r gwrthrychau yn cysylltu â rhyw brofiad neu deimlad neu atgof sy'n ein galluogi ni i fynd y tu hwnt i'r union wrthrych yn ein llaw. Yn debyg i brofiad Clio uchod, yr hyn sy'n ddiddorol yma yw archwilio sut y mae'r diriaethol, neu'r uniongyrchol, ar y naill law yn perthyn i'r haniaethol, neu'r cyffredinol, ar y llall.

**Diriaethu**

Beth ydym ni'n ei olygu wrth ddiriaethu, felly? Yn y lle cyntaf, mae rhywbeth diriaethol yn 'rhywbeth â sylwedd iddo' yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru – rhywbeth y gallwn fesur ei hyd a'i led, ei gyffwrdd, ac yn debygol iawn o fod yn rhywbeth cyffredin sydd o'n cwmpas ac yn rhan gyfarwydd o'n bywydau: ffôn, llyfr, cwpan, beiro, darlun i enwi ond rhai gwrthrychau sydd i'w canfod ar fy nesg y funud yma (heb sôn am y ddesg ei hun). Mae 'haniaeth' wedyn yn fwy cymhleth ei natur: 'rhywbeth heb sylwedd materol iddo', yn ôl y Geiriadur, 'peth sy'n bodoli fel syniad yn unig'. Byddai geiriau fel llawenydd, marwolaeth, rhyddid, euogrwydd, iaith yn enghreifftiau o eiriau haniaethol. Er eu bod yn bresennol yn ein bywydau ni, gallant fod yn oesol a chyffredinol. Er ein bod ni'n eu profi, maen nhw'n tueddu i fod yn bell oddi wrth ein bywydau bob dydd ni: ellwch chi ddim gafael mewn rhyddid na mesur euogrwydd, ac eto dyma, yn aml iawn, yw'r pynciau neu'r themâu y byddwn ni'n dymuno eu harchwilio ac ymdrin â nhw drwy gyfrwng iaith. 'Writing is how we ask questions about the world', meddai Paul Magrs, ac iddo ef mae ystyried y berthynas rhwng diriaeth a haniaeth yn cynnig posibiliadau cyffrous wrth ddatblygu syniad cychwynnol:

> Language, because it refers to things, to physical matter and everyday lives, always wants to ground these big questions, so that they make vivid sense to a reader. It wants to trigger associations for the reader and make the abstract into something that is imminent and comprehensible to them. (2001, t. 66)

Pethau neu wrthrychau diriaethol, pethau cyfarwydd. Pethau sy'n sbarduno'n dychymyg ac sy'n cysylltu â phrofiadau bychain ein byw, ie, ond pethau hefyd sy'n gallu bod yn gyfrwng i gyrraedd yr haniaethol, a chreu pont rhwng ein profiadau penodol ni (a'n darllenwyr) a'r themâu oesol, cymhleth. Mae diriaethu, felly, yn ein galluogi i weld ysgrifennu fel modd o

gyfrannu rhywbeth (bychan) at y broses o archwilio thema, yn hytrach na cheisio dweud popeth am y thema honno.

## Y berthynas rhwng y diriaethol a'r haniaethol

*O'r diriaethol i'r haniaethol*

Gall fod gen i gysylltiad personol â gwrthrych neu gall fod yn gwbl ddieithr i mi, ac mae'r ddau fath o gyswllt wedi'u defnyddio yn fy ngherddi. Mae'r gerdd 'Trysor' (Roberts 2018, t. 30), er enghraifft, yn gerdd sy'n ymateb i lestr gwydr gan Kathryn Roberts. Un o weithiau arddangosfa 'Y Lle Celf' yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn, 2017, oedd hwn, ac fe arhosodd y llestr gyda mi oherwydd y llinellau croeslinol (*diagonal*) trawiadol oedd fel petaen nhw wedi'u naddu i ochrau'r llestr. Rwy'n ceisio peidio â gwneud cysylltiadau sy'n rhy uniongyrchol, ond fe aeth y llestr yma â mi yn ôl yn syth i 'mhlentyndod ac at hen set o lestri te crand a fu ym meddiant y teulu, ac a basiwyd i ofal Mam ar farwolaeth fy nain. Llestri oedd y rhain a gedwid yn ofalus mewn cwpwrdd gwydr yn y parlwr, ac nad oeddem ni, blant, i fod i'w cyffwrdd ar boen ein bywyd. Roedd y llestri tsieina hyn yn gain, ond doedden nhw byth yn cael eu defnyddio (mygiau cyffredin oedd gennym ni ar gyfer yfed te), ac o edrych yn ofalus roedd modd gweld nifer o graciau mân, mân ym mhob cwpan a soser. Dyma fanylyn diddorol oedd yn sefyll allan i mi wrth gofio am y llestri, ac felly mae dau bennill cyntaf fy ngherdd yn cyfeirio at y llestri yma fel trysor; rhywbeth gwerthfawr ond bregus y mae angen ei amddiffyn:

Fel crair, rhoes Nain ei llestri
i'w gwarchod rhag y gwe
tu ôl i wydrau parchus,
heb fentro'u cael i de.

Ond gwelaf nawr o'u hestyn
i'w llnau, a thynnu'r llwch,
na chuddia'r patrwm cywrain
mo'r craciau mân sy'n drwch.

Ond o feddwl rhagor am y llinellau croeslinol a'r craciau, roeddwn am geisio datblygu'r syniad hwn; pethau sydd wedi cael eu cadw rhag eu defnyddio ond sydd (er gwaethaf, neu oherwydd, hynny) wedi dirywio. Dechreuais ystyried pa bethau eraill a allai fod yn yr un sefyllfa, ac fe ddaeth y dywediad 'mwyaf trwst llestri gweigion' i'r meddwl. Creodd hynny gysylltiad rhwng y peth diriaethol (llestri) ac elfen haniaethol (sŵn neu, yn fwy penodol, iaith). Yn hytrach na datblygu'n gerdd am lestri yn unig, trodd y llestri yma yn ddelwedd ddiriaethol am sefyllfa'r iaith Gymraeg, a'r modd y gall ymdrechion twymgalon i gadw'r iaith yn ddigyfnewid (mewn rhyw fath o gwpwrdd gwydr mawr), a'i gwarchod yn rhy ofalus, ei hatal rhag gwneud yr hyn a all roi iddi ddyfodol, sef cael ei defnyddio gan siaradwyr yn ei holl amrywiaeth. Er mai ystyr y dywediad, 'mwyaf trwst llestri gweigion', fel rheol, yw bod llestri gwag yn gwneud mwy o sŵn na rhai llawn (ac felly'n llai effeithiol), roedd meddwl amdano fel delwedd yn golygu fy mod yn gallu cynnig golwg arall ar hynny. Yr eironi ym mhennill olaf y gerdd yw mai llonyddwch di-ddefnydd y llestri gwag sy'n peri eu bod yn dirywio a chracio. Dyma'r pennill:

O roi i'w ceinder nodded
rhag cur a chleisiau'r gwaith,
ni chlywsom drwst eu gwacter
yn hollti fel hen iaith.

*O'r haniaethol i'r diriaethol*

Yn yr achos yma, felly, y gwrthrych diriaethol (llestr) ac yna'r atgof am wrthrych diriaethol (y set o lestri te) sydd wedi ysbrydoli cerdd am thema haniaethol (yr iaith). Ond mae modd symud o'r haniaethol i'r diriaethol yn ogystal. Un sbardun difyr wrth weithio gyda disgyblion ysgol a myfyrwyr yn hyn o beth yw'r 'warws creadigol'. Dyma drefn yr ymarfer yn y dosbarth. Byddwn yn dewis pwnc neu thema haniaethol, rhyddid er enghraifft, ac yna byddaf yn gofyn i bawb ddychmygu eu bod yn sefyll wrth ddrws warws enfawr sy'n llawn o bethau diriaethol y mae modd eu cysylltu â'r thema 'rhyddid'. Nid yw'r warws wedi'i oleuo ac felly mae'n rhaid chwilio cynnwys y warws drwy bwyntio fflachlamp (drosiadol) i'r tywyllwch eang a chraffu ar y gwrthrychau sydd yno. Y nod yw bod y sawl sy'n chwilio yn cael ei sbarduno i 'weld' gwrthrychau (neu eiriau) diriaethol, cyfarwydd, ond rhai sy'n dal i gysylltu yn y dychymyg â'r thema, ac yna yn eu casglu a'u cario drwy ddrws y warws i 'olau dydd' y tudalen. Mae modd ymweld â'r warws un waith neu ddychwelyd sawl gwaith er mwyn cael amrywiaeth o seiliau ar gyfer ysgrifennu am yr haniaeth.

Gellir ystyried y broses yma, o haniaeth i ddiriaeth, wrth lunio cerdd neu ddarn unigol, neu wrth weithio ar gynfas ehangach portffolio neu gasgliad. Yn fy nghyfrol *Tipiadau* (2018), 'amser', talp o haniaeth, yw'r brif thema, ond doeddwn i ddim am i'r cerddi yn y casgliad ymdrin â'r thema mewn modd oedd yn rhy haniaethol. Un syniad a gefais i oedd gosod gwrthrych cyfarwydd, y cloc 24 awr, yn ffrâm neu strwythur i'r gyfrol. Penderfynais y byddwn yn cynnwys tair cerdd ar gyfer pob awr o'r dydd. Roedd hynny eto yn cynnig cyfle i gysylltu ag agweddau penodol fyddai'n gyfarwydd i'r awr honno: er enghraifft, mae gen i gerdd sy'n digwydd wrth gerdded i'r gwaith sydd wedi'i gosod yn yr awr 08:00 a cherdd am adrodd stori cyn cysgu i 'mhlant sy'n digwydd yn yr awr 19:00. Ond doeddwn i ddim eisiau i bob cerdd ffitio mor hwylus o fewn y strwythur. Mae gen i rai cerddi am amser sy'n eithaf diamser, er enghraifft, y byddai modd eu gosod ar unrhyw awr o'r pedair ar hugain. Dro arall, gwrthrychau neu weithredoedd bob dydd fydd pynciau'r cerddi, megis trên, pacio, tai, parc, deffro, drych, drws, pont, mudo a hyd yn oed Knickerbocker glory! Mae'r cerddi hyn i gyd yn archwilio amser mewn rhyw ffordd, ond weithiau roeddwn am i'r cysylltiad ag amser, ac â'r awr benodol, fod yn fwy cymhleth ac anodd i'w synhwyro. Dyna ichi'r gerdd am gynaeafu gwair (a'm hatgofion i o wneud hynny fel plentyn ar y fferm) sydd wedi'i gosod am 02:00, neu'r gerdd am fynd i'r traeth heulog a chanfod 'llonyddwch' y dydd sydd wedi'i gosod am 23:00. Roeddwn i'n hoffi'r syniad bod y cerddi (fel ninnau) weithiau yn dyheu am gael dianc o afael amser, neu o ofynion arferol amser, ac yn bodoli yn yr 'amser amherffaith', chwedl y bardd Emyr Lewis yn y dilyniant campus o gerddi, 'Rhyddid' (2004, t. 22). Mae sawl un o gerddi *Tipiadau*, felly, yn ceisio dal profiadau'r ennyd, y profiadau hynny sy'n herio cysondeb llym y cloc ac sy'n gallu newid gêr ein bywydau mewn ffyrdd mân a mawr, neu, fel y dywed Gail Jones yn ei nofel *Sixty Lights*, 'to be taken up by the motion of some charismatic

moment' (2005, t. 107). Wn i ddim a lwyddais i wneud hynny yn llwyr, ond roedd archwilio'r berthynas rhwng haniaeth a diriaeth yn greiddiol i mi wrth roi cynnig arni.

Ie, bwrw goleuni bach diriaeth i ganol tywyllwch eang haniaeth. Dyna un ffordd o ddechrau arni a gweithio syniad, ac mae'n fodd o osod eich stamp personol chi ar rai o'r cwestiynau mawr y soniodd Paul Magrs amdanyn nhw. Gobeithio, wedyn, y bydd hynny'n rhoi tân i'r dychymyg ac yn hwyluso'r dasg o lenwi'r hen ddalen wen yna.

Mae **Llion Pryderi Roberts** yn Uwch-ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd lle mae'n arwain a dysgu modiwlau ym meysydd ysgrifennu creadigol, llên bywyd a llenyddiaeth gyfoes. Mae wedi cyhoeddi sawl cerdd mewn cyfnodolion a blodeugerddi, ac mae'n aelod o dîm Aberhafren ar raglen *Y Talwrn* (BBC Radio Cymru). Cyhoeddwyd cyfrol o'i farddoniaeth, *Tipiadau*, yn 2018.

**Cyfeiriadau**

Cusk, Rachel. 2014. *Outline*. London: Faber & Faber.
de Waal, Edmund. 2010. *The Hare with Amber Eyes: A Hidden Inheritance*. London: Vintage.
Jones, Gail. 2005. *Sixty Lights*. London: Vintage.
Lewis, Emyr. 2004. Rhyddid (dilyniant o gerddi). Yn: *Amser Amherffaith*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, tt.15-22.
Llewelyn, Haf. 2019. Beirniadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen. Yn: Lewis, W. Gwyn. gol. *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019*. Llys yr Eisteddfod, tt.105-109.
Magrs, Paul. 2001. Out of the Abstract. Yn: Bell, Julia a Magrs, Paul. *The Creative Writing Coursebook*. London: Macmillan, tt.65-69.
Roberts, Llion Pryderi. 2018. *Tipiadau*. Cyhoeddiadau Barddas.
Ruth, Georgia. 2024. *Casglu Llwch*. Talybont: Y Lolfa.

*Cyhoeddiad Mynediad Agored: CC BY-SA 4.0*

*Mae'r testun hwn wedi'i ryddhau dan y drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw ffordd os ydych yn rhoi cydnabyddiaeth ar ffurf dolen i'r dudalen hon, ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Gweler testun y drwydded am ragor o fanylion.*